Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cynllun Gwella Ysgol: 2026-2027

Pennaeth: Mrs A Williams

Heol y Bardd, Porth Tywyn SA16 ONL
01554 832 101
admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru
www.ysgolparcytywyn.co.uk
@ysgolparcytywyn

Pennaeth: Mrs Angharad Williams   **Cadeirydd y Corff Llywodraethu:**Mr Mathew Davies

Enw llawn yr ysgol	Cyfeiriad
Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn	Heol y Bardd, Porth Tywyn, SA16 ONL

Ffon	E-bost	Safwe
01554 832101	admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru	https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/

CYNNWYS

Ein hysgol	Cyd-destun a data ein hysgol	3
	Ysgol ar dudalen a Gweledigaeth	4
	Staffio a dosbarthiadau	8
	Rôl a chyfrifoldebau staff gan gynnwys Arweinyddiaeth	8
	Rolau llywodraethwyr a chyfrifoldebau	13
	Cyllidebau a grantiau	16
Hunanwerthuso	Adolygu cynnydd ac effaith CDY y llynedd	
	Ble i ni nawr? Gorffennaf 2026	
Priorities & Targets	Trosolwg o flaenoriaethau 2026-2027	
	Blaenoriaeth 1	
	Blaenoriaeth 2	
	Blaenoriaeth 3	
	Blaenoriaeth 4	
	Meysydd ffocws eraill (2026-27)	
	Blaenoriaethau a thargedau lefel uwch Blwyddyn 2+3	
	Adolygiad o gynnydd yn erbyn argymhellion ESTYN	
Atodiadau	Trosolwg o adolygiad polisiau	
	Log o Ddatblygiad Proffesiynol Ychwanegol (DP nad yw'n rhan o flaenoriaethau'r CDY)	

CYDESTUN YR YSGOL A DATA

Cyd destun yr Ysgol / Manylion data			
Nifer o o ddisgyblion ar y gofrestr	**255**	% y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref	**(49) 17.5%**
Nifer o disgyblion o oedran ysgol statudol	255	% y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	**0%**
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin bore Nifer mewn dosbarthiadau meithrin prynhawn Nifer mewn dosbarthiadau meithrin llawn	**26**	% ar y gofrestr ADY	**8 plentyn (3%)**
% y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim	17 plentyn (7%)	% Cefndir ethnig yn unrhywbeth gwahanol i 'Gwyn-Prydeinig'.	
% Presenoldeb ysgol gyfan am y flwyddyn academaidd flaenorol	93.18%	Sefyllfa ariannol yr ysgol	**Surplus £87,742**
Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol	**2018**	Dyddiad y penodwyd y pennaeth	**Ionawr 2023**

Datganiad Gweledigaeth a Chenhadaeth Yr Ysgol

Ysgol ar dudalen

Ein Gweledigaeth/Our Vision

Ein Dysgwyr:

- Oed 3-11
- 255 o ddysgwyr
- 17 plentyn (7%) Cinio Rhad
- 7 plentyn (3%) CDU
- 37 plentyn (14%) PUT+
- Siarad Cymraeg adref: 17.5%
- Arian i ddysgwyr: £3,440

A – Annog Annibyniaeth

B – Bachu Brwdfrydedd

C – Cyfoethogi Creadigrwydd

Ein Staff:

- Pennaeth -penodi ers Ionawr 2023
- Dirprwy Bennaeth - penodi Mehefin 2026
- 13 athro (3 rhan amser 0.9, 0.8)
- CADY (0.8)
- UDA yn cynnwys Pennaeth, Dirprwy
- 1 TLR 2B
- 2 CALU
- 2 Cynorthwyydd L3 (rhan amser 0.6, 0.4)
- 1 Myfyrwriaig
- 11 Cynorthwyydd L1
- Ysgrifenyddes
- Gofalwr

Ein Ardal Leol:

- Canran sy'n hawlio cinio rhad wedi gostwng.
- Cyffredinol – Yr ysgol yngwasanaethu cymuned sydd wedi ei raddio 443 allan o 1909 (WIMDI) yng Nghymru, sy'n ei roi yn y 20-30% mwyaf difreintiedig.
- Yr ardal leol yn profi **mwy nag un ffurf o amddifadedd**—incwm, addysg, iechyd a mynediad at wasanaethau.
- Mae'r ardal leol yn cael ei graddio'r 19fed allan o 112 o ran amddifadedd Addysg (AGEHI) o fewn ein hawdurdod lleol - dangos lefel gymharol uchel o heriau addysgol yn y gymuned.

YGG Parc Y Tywyn,
Heol Y Bardd, Porth Tywyn,
Sir Gaerfyrddin, SA16 0NL

admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru

01554 832101

Ein Dosbarthiadau

- Dechrau Deg ar y safle
- 1 dosbarth Meithrin – cynnwys disgyblion rhan amser.
- 2 ddosbarth oed cymysg (Derbyn/Bl1 a Bl1/Bl2)
- 6 dosbarth oed sengl (Bl2, Bl3, 2 x Bl4, Bl5, Bl6)
- Maint y dosbarth yn dibynnu ar nifer o ddysgwyr yn y cohort.
- Maint y dosbarthiadau yn amrywiol yn ddibynnol ar faint y cohort.
- Nifer cyfartalog dosbarth: 23.2
- 2 ystafell ddosbarth gwag

Gweledigaeth

Annog Annibynniaeth
Bachu Brwdfrydedd
Cyfoethogi Creadigrwydd

Mae ein hysgol yn gymuned glos a chyfeillgar lle mae perthnasoedd meithringar yn cefnogi pob plentyn i gyrraedd eu potensial llawn ac i ddod yn aelod gwerthfawr o'n cymuned. Rydym yn darparu profiadau pwrpasol a chyfoethog sy'n herio ac yn ysbrydoli llwyddiant, yn dathlu ein treftadaeth gyfoethog, ac yn manteisio i'r eithaf ar brofiadau dysgu yn yr awyr agored i helpu disgyblion i dyfu'n ddysgwyr uchelgeisiol a galluog; cyfranwyr mentrus a chreadigol; dinasyddion moesegol a gwybodus; ac unigolion hyderus ac iach.

Gwerthoedd:

Gweler ein deg gwerth uchod. Rydym yn creu amgylchedd hapus, cynhwysol a gofalgar lle mae pob disgybl yn:

•Datblygu'n academaidd, emosiynol ac ysbrydol

•Ymfalchïo yn iaith a diwylliant Cymru

•Meithrin sgiliau bywyd – meddwl yn annibynnol, gweithio fel tîm a bod yn fentrus.

• Cyfleoedd cyfoethog i ddysgu tu mewn a thu allan i'r dosbarth

•Tyfu'n ddinasyddion hyderus, caredig ac egwyddorol sy'n gyfrifol

•Parchu hawliau pobl eraill a gwerthoedd moesol

•Bod wedi'u meithrin i lwyddo a dyfalbarhau.

Datganiadau cenhadaeth:

Ein nod yw cynnig addysg ysbrydoledig a chynhwysol sy'n sicrhau datblygiad llawn pob disgybl – yn academaidd, yn foesol, yn ysbrydol ac yn greadigol – o fewn amgylchedd hapus, gofalgar a chartrefol.

• Rydym yn anelu at feithrin unigolion uchelgeisiol, iach, hyderus ac egwyddorol, sy'n gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm, ac sy'n barod i gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas amlddiwylliannol.

• Rydym yn sicrhau cyfleoedd i ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol, datrys problemau, cydweithio a meddwl yn feirniadol.

• Rydym yn annog pob disgybl i ymfalchïo yn iaith, diwylliant a thraddodiadau Cymru, gan werthfawrogi treftadaeth eu cymuned eu hunain a'r byd ehangach.

• Rydym yn meithrin cysylltiad cryf â theulu’r ysgol a’r gymuned ehangach, ac yn sicrhau bod barn disgyblion a’r gymuned yn ganolog i fywyd yr ysgol.

• Ein nod yw creu cyfleoedd cyffrous ac ystyrlon i blant dyfu’n ddinasyddion gwybodus, caredig ac ymrwymedig sy’n parchu hawliau eraill, sy’n cefnogi achosion lleol ac yn dathlu llwyddiant pob unigolyn.

Trefniant y dosbarthiadau 2026-27						**Ffactorau cyd-destunol**				
Blwyddyn	**Dosb/Athro**	**Disgyblion**	**PYDd**	**Plant Mewn Angen**	**Plant a ofelir amdanynt**	**Saesneg fel iaith ychwanegol**	**Hwyrddyfodwyr i'r Gymraeg**	*Gweithredu Ysgol* **Profile +**	*Gweithredu ysgol a mwy* **IDP**	**Datganiad**
Meithrin bore **Meithrin pryn.**	**A Davies**	26 /							1	
Meithrin llawn		/						0		
Derbyn	**A Bryant**	29						0		
Derbyn / Blwyddyn 1	**A Griffiths**	27	1					1		
Blwyddyn 1 a 2	**H Davies**	25	1					1		
Blwyddyn 2	**C James/ A Davies**	30	2					2		
Blwyddyn 3	**P Ford**	26	2					3	3	
Blwyddyn 4	**E Thomas**	17	1					7	1	
Blwyddyn 4	**E Evans**	17	3					2	1	
Blwyddyn 5	**S Richards**	26	2					2		
Blwyddyn 6	**L Howells**	32	3					2	3	

Trosolwg Strategol 26 / 27 Cynllunio'r Gweithlu :	**Nifer o athrawon : 12**	**Staff ategol Cyfnod Sylfaen : 9** **HLTA x 2, Myfyrwraig P.A x 1, L2 x 6**	**Staff ategol Adran Iau : 4** **(L2 x3, L3 x1 (0.6)**

Cynorthwyydd ADY	3
Athro CPA	Elin Zych
CADY	Elinor Thomas
Gweinyddol	1
Pennaeth	1

Erthygl 3 : Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn.
Article 3 : Everyone who works with children should always do what is best for each child.

Strwythur yr UDA a chymwysterau arwain a rheoli				
Aelod o staff	**Pennaeth**	**Dirprwy Bennaeth**	**Arweinydd Dysgu Sylfaen**	**CADY**
Enw	**Angharad Williams**	**Elin Zych**	**Angharad Griffiths**	**Elinor Thomas**
Cymwysterau proffesiynol	CPCP Cwrs Uwch Arweinwyr	Cwrs Uwch arweinwyr		Cwrs Uwch arweinwyr

ROLAU, CYFRIFOLDEBAU AC ADNODDAU

Cyfrifoldebau Athrawon 2026-2027

Enw :	Cyfrifoldebau/ Arweinydd Maes	Cyfrioldeb Uwchlaw:
AW Pennaeth	Arweinyddiaeth strategol, diogelu, safonau, cyllid, ADY, presenoldeb, data ac asesu, lles, staffio, rheoli perfformiad, dysgu proffesiynol a chysylltiadau cymunedol.	• Gofal cymorth ac arweiniad • Arweinyddiaeth strategol a chyfeiriad yr ysgol • Swyddog Amddiffyn Plant (case conferences & core groups) • Iechyd a diogelwch a chyfrifoldeb safle • Monitro a chodi safonau • Strwythurau staffio a dysgu proffesiynol • Rheolaeth ariannol a chyllideb yr Ysgol • Ymddygiad a lles disgyblion • Goruchwylio grantiau a sicrhau gwerth am arian • Diogelu · Rôl y Corff Llywodraethol : Her a chefnogaeth • Polisiau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch safle'r ysgol

		• Rheoi Perfformiad Athrawon • Cysylltiadau rhanddeiliaid • Cymdeithas Rhieni ac Athrawon • Datblygiad CiG ysgol gyfan • Presenoldeb
EZ Dirprwy Bennaeth / CPA	Arwain y Cwricwlwm i Gymru, asesu a thracio cynnydd, safonau, hunanwerthuso a'r CDY, presenoldeb, dirprwy diogelu, rhaglenni ymyrraeth, dysgu proffesiynol, EVOLVE ac iechyd a diogelwch. Arwain Iechyd a Lles	• Arwain datblygiad, gweithredu a gwerthuso'r Cwricwlwm i Gymru ar draws yr ysgol • Sicrhau bod y 4 Diben yn sail i gynllunio, addysgu ac asesu • Monitro a chodi safonau drwy hunanwerthuso, monitro ac adolygu blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol • Cydlynu asesu, tracio a dadansoddi data cynnydd dysgwyr • Arwain cymedroli a safoni i sicrhau cysondeb mewn asesu • Goruchwylio grwpiau targed, rhaglenni ymyrraeth a darpariaeth dysgwyr PYDd • Trefnu a monitro amserlenni ymyriadau mewn cydweithrediad â'r CADY • Rheolwr llinell cynorthwywyr ymyrraeth ac athrawon cynnar eu gyrfa • Rheoli perfformiad athrawon perthnasol • Arwain a chydlynu dysgu proffesiynol staff • Dirprwy Swyddog Diogelu Dynodedig • Monitro presenoldeb ac absenoldebau dysgwyr • Cydlynu ymweliadau addysgol, asesiadau risg ac EVOLVE • Cydlynu Cymorth Cyntaf yr ysgol • Arwain gwaith Ysgolion Iach (Amgylchedd ac ABCh) • Arwain gwaith Ysgolion Heddwch • Cydlynu a datblygu cysylltiadau rhyngwladol yr ysgol • Cyfrifoldeb safle yn absenoldeb y Pennaeth
AG Derbyn/Bl.1	CDA 2a Arwain y Cyfnod Dysgu Sylfaen, Iechyd a Lles, CRhA, Jigsaw, Ysgolion Iach, safoni gwaelodlin, trosglwyddo o'r Meithrin a hyrwyddo lles emosiynol a meddyliol dysgwyr.	• Arwain a datblygu'r Cyfnod Dysgu Sylfaen ar draws yr ysgol • Monitro safonau addysgu, dysgu a chynnydd dysgwyr yn y Cyfnod Dysgu Sylfaen • Cydlynu trosglwyddo a sefydlu cysylltiadau cryf gyda Mudiad Meithrin, cylchoedd meithrin a darparwyr cyn-ysgol • Arwain safoni a dadansoddi asesiadau gwaelodlin

Arweinydd Dysgu Sylfaen	Iechyd a Lles Addysg Chydberthynas a Rhywioldeb Arweinydd Dysgu Sylfaen	• Arwain MDaPh Iechyd a Lles • Cydlynu ac arwain Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (CRhA) ar draws yr ysgol • Arwain rhaglen Jigsaw ysgol gyfan • Swyddog Diogelu • Arwain gwaith Ysgolion Iach ym meysydd Iechyd a Lles Meddyliol ac Emosiynol • Arwain gwaith Ysgolion Iach ym maes Datblygiad Personol a Pherthnasoedd • Hyrwyddo lles, gwydnwch ac iechyd emosiynol dysgwyr • Cefnogi staff i ddatblygu arferion effeithiol ym maes lles a datblygiad personol • Cyfrannu at hunanwerthuso a blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol sy'n ymwneud â'r Cyfnod Dysgu Sylfaen, lles a chynhwysiant
ETh **CADY** **Blwyddyn 4**	CDA 2a Arwain ADY, CDUau, darpariaeth gynhwysol, mapiau darpariaeth, asiantaethau allanol, asesiadau ac atgyfeiriadau, monitro cynnydd dysgwyr a chefnogi staff ac ymyriadau ADY. Saesneg	• Cydlynu, arwain a gwerthuso darpariaeth ADY yr ysgol • Rheoli a monitro cofrestr ADY, CDUau a chynlluniau iechyd unigol • Arwain cyfarfodydd adolygu CDU a chydlynu asesiadau ac atgyfeiriadau ADY • Monitro cynnydd a lles dysgwyr ADY, MAT a grwpiau targed • Cydlynu mapiau darpariaeth, ymyriadau a chymorth wedi'i dargedu • Cydweithio ag asiantaethau allanol a chydlynu cymorth amlasiantaethol • Cynorthwyo staff i ddatblygu darpariaeth gynhwysol ac arferion effeithiol • Arwain a chefnogi cynorthwywyr ADY a staff sy'n darparu ymyriadau • Hwyluso dysgu proffesiynol ym maes ADY a chynhwysiant • Swyddog Diogelu a chyswllt ar gyfer materion sy'n ymwneud ag ADY a lles • Arwain a monitro grwpiau o ddysgwyr gan gynnwys ADY, MAT a dysgwyr targed • Arwain MDaPh Iechyd a Lles y Cwricwlwm i Gymru • Cyfrannu at fonitro safonau, cynnydd a chanlyniadau dysgwyr bregus ar draws yr ysgol
LH Bl 6	Cymraeg Datblygu a gweithredu'r cwricwlwm yn eu maes cyfrifoldeb, monitro safonau ac ansawdd addysgu a dysgu, cefnogi hunanwerthuso a blaenoriaethau'r	• Pontio • Llais y plant : Llysgenhadon Actif • Clybiau Allgyrsiol (trefnu, rheoli a hysbysu rhieni) • Arwain MDaPh CiG • Cymreictod – Cymru Cwl

	CDY, a sicrhau cynnydd a deilliannau uchel i ddysgwyr. Fel athrawes hefyd yn gyfrifol am ddarparu addysgu o safon uchel, asesu cynnydd dysgwyr a sicrhau lles a datblygiad pob plentyn yn eu gofal.	• ANG
SR Bl 5	Mathemateg a Rhifedd	• Cyd-lynydd Ysgolion Iach • Datblygu Mathemateg a Rhifedd Ysgol gyfan • Gemau cystadleuol / Gweithdrefnau chwaraeon yr Urdd
PF Bl 3	Gwyddoniaeth a Thechnoleg Cymhwysedd Digidol	• Datblygu fframwaith Cymhwysedd Ddigidol PyT • Dewiniaid Digidol • Papur y Porth • Cydlynu Gwyddoniaeth a Thechnoleg • Ysgolion Iach: Diogelwch • Rheolwr Rhaglenni Ddigidol yr ysgol (HWB, Seesaw, Google Classrooms, Offer TGCh, Apiau)
EE Bl 4	Celfyddydau Mynegiannol	• Arwain MDaPh Celfyddydau Mynegiannol • Prosiectau cysylltu gyda'r gymuned • Cydlynu Cyngor ECO • Eisteddfodau • Ysgolion Iach : Yr Amgylchedd
HD Bl 1	Dyniaethau	• Arwain y Cyngor ysgol • Arwain dyniaethau MDaPh CiG • Gweithdrefnau'r Eisteddfod – Celf a Chrefft
AD **Bl2**	Addysg Grefyddol a Moeseg	• Arwain Addysg Grefyddol (Dyniaethau MDaPh) CiG • Trefnu Crefydd, gwerthoedd a moeseg • Cysylltu a'r gymuned, dathliadau Cristnogol
CJ	Lles – Addysg Gorfforol	• ANG • Arwain Addysg Gorfforol yn Iechyd a Lles MDaPh CiG

		• Masnach Deg
AB Bl1	Mathemateg	• Cefnogi gyda datblygu'r ardaloedd dysgu o fewn y dysgu sylflaen • Criw Cymraeg • Rheolwr Rhaglenni Ddigidol yr ysgol (HWB, Seesaw, Google Classrooms, Offer TGCh, Apiau)

Y Corff Llywodraethol		
Enw	**Rôl**	**Cyfrifoldebau**
Mrs Angharad Williams	Pennaeth	**Diogelu Plant** **Lles** **Cyllid** **Safonau**
Mr Mathew Davies	Cadeirydd	**Cadeirydd** **Cyllid** **Anghenion Addysgol Ychwanegol** **Safonau** **Polisiau** **Digidol**
Cllr Sharon Thomas	Cynrychiolydd Awdurdod Lleol	**Is Bwyllgor Cwricwlwm**
Cllr H B Shepardson	Cynrychiolydd Awdurdod Lleol	**Cyllid** **Iechyd a Diogelwch**
Cllr John James	Cynrychiolydd Awdurdod Lleol	**Cyllid**
Mrs Sam Holly	Rhiant Llywodraethwr	**Diogelu Plant a Lles** **Polisiau**
Mrs Sian Elias Morris	Cynrychiolydd Staff	**Ymyrraethau**
Mrs Sian Denman	Cynrychiolydd Cymunedol	**Is Bwyllgor Cwricwlwm**

Mrs Rhiannon Young	Rhiant Llywodraethwr	**Cynghorau**
Mrs Nest Griffiths	Cynrychiolydd Cymunedol	**Is Bwyllgor Cwricwlwm**
Mrs T Nicholson	Rhiant Llywodraethwr	**Is Bwyllgor Cwricwlwm** **Cymhwysedd Ddigidol** **Polisiau**
Mrs A Griffin	Cynrychiolydd Cymunedol	**Cyllid** **Iechyd a Diogelwch** **Is Bwyllgor Cwricwlwm**
Mrs E Thomas	Cynrychiolydd Staff	**Diogelu Plant** **Safonau**

ADY	**M Davies**	**Amddiffyn Plant a LAC**	**M Davies**	**Presenoldeb**	**Sh Thomas** **Rh Young**	**Chwythu'r Chwiban**	**M Davies a T Nicholson**

Cyllid a Grantiau 2026-2027

Ffynhonnell Gyllid	Pwrpas / Termau	Swm (£)
Ariannu Disgyblion	Cyllid craidd yn seiliedig ar 249 o ddisgyblion	1,232,726
Cyfanswm Ariannu Teg	Cyfanswm cyllid dirprwyedig yr ysgol	**1,334,739**
Amddifadedd	Cyllid yn seiliedig ar MALIC a Phrydau Ysgol am Ddim	61,351
Grant Safonau Ysgolion (GAALl)	Cefnogi safonau ysgol, cymarebau staffio'r Dysgu Sylfaen a blaenoriaethau gwella ysgol. Mae'r grant hwn yn disodli'r grantiau Cyfnod Sylfaen, GGA ac RDC-RACS blaenorol.	153,905
Grant Cyflawni a Sicrhau Ansawdd y System ADY (GAALl)	Cefnogi gweithredu'r system ADY, gwella ansawdd darpariaeth a chodi deilliannau dysgwyr ADY.	6,031
Grant Dysgu Proffesiynol (GAALl)	Cefnogi hyfforddiant, ymchwil, cydweithio a datblygiad proffesiynol staff.	5,073
Grant Diwygio'r Cwricwlwm (GAALl)	Cefnogi datblygu'r Cwricwlwm i Gymru, asesu a chynllunio cynnydd dysgwyr.	3,337

Ble ydyn ni nawr?

CRYFDERAU	GWENDIDAU / ARDALOEDD AR GYFER GWELLA
MA1: • Mae llawer o athrawon yn darparu gweithgareddau ysgogol sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar wybodaeth a medrau blaenorol disgyblion. • Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio meini prawf llwyddiant, adborth llafar a strategaethau hunanasesu yn fwy cyson nag o'r blaen. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gallu trafod eu dysgu a'u camau nesaf yn hyderus. • Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. • Mae llawer o ddisgyblion yn dangos hyder, dyfalbarhad ac annibyniaeth gynyddol wrth ddatrys problemau mathemategol ac yn defnyddio modelau a chynrychioliadau gweledol yn effeithiol i egluro eu meddwl. • Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau Cymraeg llafar yn gynnar ac mae llawer o ddisgyblion yn dangos balchder yn eu Cymreictod. • Mae amgylcheddau Dysgu Sylfaen wedi gwella'n sylweddol ac yn cynnig cyfleoedd mwy pwrpasol i ddatblygu sgiliau ac annibyniaeth disgyblion. • Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn mathemateg weithdrefnol a rhesymu mathemategol. Mae llawer yn datblygu hyder cynyddol wrth gymhwyso eu medrau mathemategol mewn ystod o gyd-destunau.	**Darllen** • Mae data'r Profion Cenedlaethol yn dangos dirywiad mewn safonau darllen, yn arbennig mewn Darllen Saesneg. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni yn y band Cyflawniad Uchel, ynghyd â chynnydd yn nifer y disgyblion yn y bandiau sgorio is. • Er bod llawer o ddisgyblion bregus yn gwneud cynnydd da, nid yw'r ysgol yn sicrhau digon o her i gynnal cynnydd y disgyblion sy'n cyflawni ar y lefelau uchaf. • Nid yw arferion addysgu ffoneg a darllen wedi'u safoni'n llawn ar draws yr ysgol. • Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion eto'n defnyddio strategaethau darllen uwch megis inferio, rhagfynegi, crynhoi a gwerthuso testunau yn gyson. • Mae angen cryfhau'r defnydd o asesiadau darllen i lywio addysgu ac ymyriadau yn fwy effeithiol. • Mae angen datblygu ymhellach ddiwylliant darllen cryf sy'n hyrwyddo darllen er mwyn pleser a chryfhau partneriaethau â rhieni. **Mathemateg** • Er bod safonau mathemateg wedi gwella, nid yw geirfa fathemategol, rhesymu a datrys problemau yn ddigon cyson ar draws pob dosbarth.

- Mae llawer o ddisgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim (FSM), disgyblion CDU a disgyblion Proffil+ yn gwneud cynnydd cadarnhaol mewn mathemateg a darllen Cymraeg. Mae hyn yn dangos effaith gadarnhaol darpariaeth gynhwysol yr ysgol ac ymyriadau wedi'u targedu.

MA2:

- Mae diwylliant cryf o ddiogelu yn sicrhau bod bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth.
- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu dull trawma-seiliedig ac adferol. Mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio strategaethau perthynol yn fwy cyson.
- Mae perthnasoedd rhwng staff a disgyblion yn gryf, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu a lles.
- Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth gynhwysol effeithiol i ddisgyblion ADY a dysgwyr bregus.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael eu cefnogi'n dda gan oedolion yr ysgol.
- Mae systemau olrhain a chefnogaeth yr ysgol yn cefnogi llawer o ddisgyblion bregus, gan gynnwys dysgwyr FSM, CDU a Proffil+, i wneud cynnydd priodol a datblygu eu medrau yn llwyddiannus.
- Mae gan yr ysgol systemau effeithiol i fonitro a hyrwyddo presenoldeb ac mae arweinwyr yn defnyddio data'n bwrpasol i adnabod patrymau ac ymateb i bryderon.

MA3:

- Mae gan y pennaeth a'r uwch dîm arwain weledigaeth glir ar gyfer gwella safonau a lles disgyblion.

- Er bod cyfran uchel o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarnhaol mewn mathemateg, mae gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni yn y band Cyflawniad Uchel yn dangos yr angen i ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer rhesymu estynedig a her fathemategol.
- Nid yw pob disgybl yn gallu cyfiawnhau nac egluro eu meddwl mathemategol yn ddigon manwl.
- Mae angen sicrhau mwy o gysondeb yn ansawdd y ddarpariaeth mathemategol er mwyn lleihau amrywiad mewn deilliannau.

Annibyniaeth ac Asesu ar gyfer Dysgu

- Nid yw arferion Asesu ar gyfer Dysgu wedi'u hymgorffori'n ddigon cyson i ddatblygu lefelau uchel o annibyniaeth ym mhob dosbarth.
- Mewn rhai dosbarthiadau mae gormod o ddisgyblion yn dibynnu ar gymorth oedolion yn rhy gynnar yn hytrach na defnyddio strategaethau annibynnol.
- Mae ansawdd cwestiynu yn amrywio rhwng dosbarthiadau ac nid yw bob amser yn datblygu meddwl dyfnach, datrys problemau a gwydnwch disgyblion.
- Nid yw hunanasesu ac asesu cyfoedion o safon uchel wedi'u gwreiddio'n gyson ar draws yr ysgol.
- Nid yw disgwyliadau ar gyfer annibyniaeth mewn gweithdai, gorsafoedd a gweithgareddau annibynnol yn ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Perthnasoedd, Llais y Disgybl a Lles

- Nid yw arferion perthynol ac adferol eto'n gwbl gyson ym mhob cyd-destun ysgol, yn enwedig yn ystod amseroedd anstrwythuredig.
- Nid yw llais y disgybl eto'n cael digon o ddylanwad ar gynllunio, gwerthuso a gwneud penderfyniadau ysgol gyfan.
- Mae angen cryfhau ymhellach gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu'n weithredol at ddatblygiadau a blaenoriaethau'r ysgol.

• Mae gweithdrefnau hunanwerthuso yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol ac yn adnabod cryfderau a blaenoriaethau'r ysgol yn gywir. • Mae'r ysgol yn dangos hanes cryf o weithredu blaenoriaethau gwella yn llwyddiannus ac mae'r mwyafrif o flaenoriaethau'r CDY wedi gwneud cynnydd cryf. • Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth a datblygiad staff. • Mae grantiau a chyllid ychwanegol yn cael eu defnyddio'n bwrpasol i gefnogi cynnydd a lles disgyblion.	**Y Gymraeg** • Er bod llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn gwersi, nid yw'r defnydd naturiol ac annibynnol o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn ddigon cyson ar draws yr ysgol. • Mae angen parhau i ddatblygu rhuglder llafar a chynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth.
CYFLEOEDD	**BYGYTHION**
• Gwreiddio model ysgol gyfan ar gyfer darllen a ffoneg. • Datblygu diwylliant mathemategol lle mae disgyblion yn egluro, cyfiawnhau a rhesymu'n hyderus. • Adeiladu ar lwyddiant ymyriadau targedig ar gyfer dysgwyr FSM, CDU a Proffil+ er mwyn cyflymu cynnydd ymhellach. • Datblygu darpariaeth fwy heriol ar gyfer disgyblion mwy abl er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n cyflawni yn y bandiau cyflawniad uchel. • Defnyddio'r arferion llwyddiannus a welir mewn Darllen Cymraeg i gryfhau safonau Darllen Saesneg ar draws yr ysgol. • Datblygu dysgwyr annibynnol sy'n gallu cynllunio, monitro a gwerthuso eu dysgu eu hunain. • Cryfhau llais y disgybl fel partner gweithredol mewn hunanwerthuso a gwelliant ysgol. • Cynyddu defnydd naturiol o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. • Datblygu ymhellach rôl arweinwyr canol a chryfhau capasiti arwain ar draws yr ysgol.	• Effaith amddifadedd lleol ar safonau darllen, presenoldeb ac ymgysylltiad dysgwyr. • Y cynnydd mewn anghenion emosiynol, cymdeithasol ac ADY sy'n gosod pwysau cynyddol ar adnoddau a chapasiti staff. • Cyfyngiadau cyllidol a'r her o gynnal lefel uchel o gymorth ac ymyriadau wedi'u targedu. • Dim ond canran gymharol isel o ddisgyblion sy'n dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith, sy'n gallu effeithio ar ddefnydd naturiol o'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol. • Recriwtio a chadw staff medrus mewn cyfnod o heriau cenedlaethol o fewn y gweithlu addysg.

Adolygiad CDY o effaith y flwyddyn flaenorol 2025 – 2026

Cynnydd da iawn Very good progress	Cynnydd cryf Strong progress	Cynnydd boddhaol Adequate progress	Cynnydd cyfyngedig Limited progress

Blaenoriaeth	A wnaethon ni gyrraedd y targedau? Pa effaith gafodd hyn ar y ddarpariaeth a'r safonau?	Cynnydd
Dysgu ac Addysgu – Asesu ar gyfer Dysgu Sicrhau defnydd cyson ac effeithiol o Asesu ar gyfer Dysgu er mwyn	Gwnaeth yr ysgol gynnydd cryf wrth wreiddio egwyddorion Asesu ar gyfer Dysgu ar draws y rhan fwyaf o ddosbarthiadau. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio meini prawf llwyddiant, adborth amserol a strategaethau hunanasesu a chydasesu yn fwy cyson. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu egluro beth maent yn ei ddysgu, sut maent yn gwneud cynnydd a beth yw eu	Cynnydd cryf

Blaenoriaeth	A wnaethon ni gyrraedd y targedau? Pa effaith gafodd hyn ar y ddarpariaeth a'r safonau?	Cynnydd
datblygu annibyniaeth, ymreolaeth a medrau meddwl disgyblion.	camau nesaf. Mae annibyniaeth ac ymateb disgyblion i adborth wedi cryfhau, er bod angen sicrhau mwy o gysondeb ym mhob dosbarth.	
Dysgu ac Addysgu – Mathemateg Gwreiddio dull Singapore Maths fel model ysgol gyfan ar gyfer datblygu rhifedd, rhesymu a datrys problemau.	Gwnaeth yr ysgol gynnydd cryf wrth weithredu dull Singapore Maths, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio strwythurau gwersi cyson ac yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddefnyddio diagramau, modelau a strategaethau rhesymu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwell hyder, dyfalbarhad ac annibyniaeth wrth ddatrys problemau mathemategol. Mae data mewnol a thystiolaeth mewn llyfrau yn dangos gwelliant yn safonau rhesymu mathemategol ar draws yr ysgol. Mae annibyniaeth ac ymateb disgyblion i adborth wedi cryfhau. Fodd bynnag, nid yw'r arferion hyn eto wedi'u gwreiddio'n ddigon cyson ym mhob dosbarth i sicrhau lefelau uchel o annibyniaeth, hunanreoleiddio a pherchnogaeth dros ddysgu ymhlith pob disgybl.	**Cynnydd cryf**
Dysgu ac Addysgu – Dysgu Sylfaen Sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel sy'n cynnig her briodol ac yn datblygu amgylcheddau dysgu mewnol ac allanol effeithiol.	Gwnaeth yr ysgol gynnydd cryf wrth ddatblygu'r amgylcheddau dysgu a chynyddu ansawdd y ddarpariaeth yn y Dysgu Sylfaen. Mae'r ardaloedd mewnol ac allanol yn cynnig profiadau mwy pwrpasol ac ysgogol, gyda mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu annibyniaeth a gwneud dewisiadau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â'r ardaloedd dysgu ac yn dangos lefelau uchel o les ac ymddygiad cadarnhaol. Er bod yr amgylchedd wedi gwella'n sylweddol, mae angen parhau i gryfhau lefel yr her a sicrhau cysondeb yn y defnydd o arsylwadau i lywio'r camau nesaf mewn dysgu.	**Cynnydd cryf**
Lles ac Ymddygiad – Dull Trawma-seiliedig **Ymgorffori dull trawma-seiliedig ac adferol er mwyn gwella lles, ymddygiad, presenoldeb a pherthnasoedd ar draws yr ysgol.**	Gwnaeth yr ysgol gynnydd cryf wrth wreiddio egwyddorion trawma-seiliedig ac adferol ar draws y ddarpariaeth. Mae'r rhan fwyaf o staff yn dangos dealltwriaeth gryfach o effaith trawma ar ddatblygiad, ymddygiad a dysgu, ac yn defnyddio strategaethau perthynol ac adferol yn fwy cyson. Mae hyn wedi cyfrannu at berthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion ac at well gallu llawer o ddisgyblion i reoleiddio eu hemosiynau a datrys gwrthdaro yn briodol. Mae systemau cymorth lles wedi'u cryfhau drwy sesiynau wedi'u targedu, mannau rheoleiddio ac ymgysylltu effeithiol â theuluoedd ac asiantaethau allanol. O ganlyniad, gwelwyd gwelliant mewn lles ac ymgysylltiad y rhan fwyaf o ddisgyblion, ynghyd â gostyngiad mewn digwyddiadau ymddygiadol difrifol a gwaharddiadau. Er bod parch ac ymddygiad cadarnhaol wedi gwella, mae sicrhau cysondeb llawn ym mhob cyd-destun ysgol yn parhau'n flaenoriaeth.	**Cynnydd cryf**
Dysgu ac Addysgu – Y Gymraeg Datblygu dysgwyr hyderus a medrus yn y Gymraeg drwy gynllunio dilyniant cadarn mewn	Gwnaeth yr ysgol gynnydd boddhaol tuag at ddatblygu medrau llafar disgyblion a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws yr ysgol. Mae cynllunio mwy bwriadol ar gyfer datblygu llafaredd, ynghyd â strategaethau megis Cynllun Clonc, drilio iaith a dulliau Pie Corbett, wedi cyfrannu at well dilyniant mewn medrau siarad, darllen ac ysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg	**Cynnydd boddhaol**

Blaenoriaeth	A wnaethon ni gyrraedd y targedau? Pa effaith gafodd hyn ar y ddarpariaeth a'r safonau?	Cynnydd
sgiliau llafar ac ymestyn defnydd y Gymraeg ar draws yr ysgol gyfan.	yn hyderus mewn gwersi ac mae llawer yn dangos balchder yn eu Cymreictod. Mae mentrau fel y Criw Cymraeg a gweithgareddau ysgol gyfan wedi helpu i gryfhau ethos Cymraeg yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw defnydd naturiol ac annibynnol o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth eto'n gyson ar draws pob grŵp blwyddyn. Er bod gwelliant amlwg yn hyder a defnydd disgyblion o'r Gymraeg, mae angen parhau i ddatblygu rhuglder llafar a chynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol.	

EIN BLAENORIAETHAU CDY 2026-2027

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf yn erbyn y rhan fwyaf o flaenoriaethau'r CDY yn ystod 2025-26. Mae gweithgareddau monitro, hunanwerthuso a dadansoddi'r Profion Cenedlaethol wedi darparu dealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.

Mae llawer o ddisgyblion FSM, CDU a Phroffil+ yn gwneud cynnydd cadarnhaol mewn mathemateg a darllen Cymraeg. Mae hyn yn dangos effaith gadarnhaol darpariaeth gynhwysol yr ysgol a'r ymyriadau wedi'u targedu.

Fodd bynnag, mae dadansoddiad o ddata darllen yn dangos nad yw cynnydd mewn darllen wedi'i gynnal yn gyson ar draws pob cohort, yn enwedig mewn Darllen Saesneg. Mae gostyngiad wedi bod yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni yn y band Cyflawniad Uchel ynghyd â chynnydd yn nifer y disgyblion yn y bandiau sgorio is.

Er bod safonau mathemateg wedi gwella a llawer o ddisgyblion yn dangos mwy o hyder, dyfalbarhad ac annibyniaeth wrth ddatrys problemau, mae angen parhau i ddatblygu rhesymu mathemategol, geirfa fathemategol a lefel yr her ar gyfer disgyblion sy'n gallu cyflawni ar y lefelau uchaf.

Mae'r ysgol hefyd wedi adnabod yr angen i ddatblygu annibyniaeth disgyblion ymhellach drwy gryfhau arferion Asesu ar gyfer Dysgu, sicrhau mwy o gysondeb yn ansawdd cwestiynu ac ehangu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd perchnogaeth o'u dysgu.

Yn ogystal, er bod perthnasoedd yn gryf a'r dull trawma-seiliedig wedi cael effaith gadarnhaol ar les ac ymddygiad, mae angen parhau i ddatblygu llais y disgybl a sicrhau bod arferion perthynol ac adferol yn gyson ym mhob cyd-destun ysgol.

Mae'r canfyddiadau hyn wedi llywio blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol ar gyfer 2026-27.

Blaenoriaeth 1	Gwella safonau darllen drwy sicrhau addysgu ffoneg cyson a systematig, cryfhau geirfa ac iaith lafar, a meithrin diwylliant darllen cryf mewn partneriaeth â rhieni. Strategaeth darllen
Blaenoriaeth 2	Cryfhau rhesymu mathemategol a datrys problemau er mwyn gwella cynnydd a deilliannau disgyblion ar draws yr ysgol.
Blaenoriaeth 3 **Priority 3**	Ymgorffori a chryfhau diwylliant ysgol gyfan sy'n seiliedig ar berthnasoedd, gwrando empathig a lles y disgybl
Blaenoriaeth 4 **Priority 4**	Datblygu dysgwyr annibynnol, gwydn a hunanreoleiddiol drwy gryfhau arferion Asesu ar gyfer Dysgu ar draws yr ysgol

Blaenoriaeth 1 **Priority 1**	Gwella cynnydd a safonau darllen pob dysgwr drwy ddarpariaeth darllen gyson ac effeithiol ar draws yr ysgol.

Ble'r ydyn ni arni 'nawr? yn seiliedig ar ein hunanarfarnu	**Meini Prawf Targedau a Llwyddiant** Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan fydd:	**Ffynonellau Tystiolaeth Allweddol**
• Arweiniodd blaenoriaeth strategol y CDU ar ddatblygu darllen yn 2024 at welliant mesuradwy mewn safonau darllen yn 2025, gan ddangos effaith gadarnhaol darpariaeth dargedig ac arweinyddiaeth effeithiol ar ddeilliannau disgyblion. • Mae data darllen Cymraeg yn dangos cynnydd mwy cyson a chynaliadwy na darllen Saesneg. Mae llawer o ddisgyblion wedi cynnal neu gwella eu perfformiad, gan ddangos gwydnwch yn eu medrau darllen Cymraeg dros amser. • Mae gweithgareddau monitro ac arfarnu'r ysgol yn darparu dealltwriaeth glir o gryfderau a meysydd i'w datblygu, gan	• Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarnhaol mewn darllen Saesneg, gyda data safonedig yn dangos gwelliant o gymharu â 2025-2026. • Mae'r bwlch rhwng perfformiad darllen Cymraeg a Saesneg wedi lleihau, gyda deilliannau darllen yn fwy cyson ar draws y ddwy iaith. • Mae addysgu ffoneg a darllen yn gyson effeithiol ar draws yr ysgol, gyda'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio strategaethau cytûn yn fedrus. • Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos rhugldger, cywirdeb a dealltwriaeth well	• Data asesiadau darllen safonedig (Cymraeg a Saesneg). • Data cynnydd disgyblion dros amser, gan gynnwys cymariaethau rhwng carfannau a grwpiau penodol o ddysgwyr. • Dadansoddiad o ddata ffoneg ac asesiadau darllen mewnol. • Arsylwadau gwersi a theithiau dysgu sy'n gwerthuso ansawdd addysgu darllen a ffoneg. • Craffu ar waith a llyfrau disgyblion i werthuso cynnydd mewn rhugldger, dealltwriaeth a defnydd o strategaethau darllen. • Trafodaethau proffesiynol â staff ynghylch cynllunio, addysgu ac asesu darllen. • Cyfweliadau a grwpiau ffocws disgyblion sy'n archwilio agweddau tuag at ddarllen, hyder a mwynhad.

alluogi arweinwyr i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch blaenoriaethau gwella. • Mae dadansoddiad o ddata 2025-2026 yn dangos nad yw'r gwelliannau a welwyd mewn darllen Saesneg wedi'u cynnal. Er bod llawer o ddisgyblion yn parhau i gyflawni o fewn disgwyliadau oedran, mae mwyafrif y cohort wedi gwneud llai o gynnydd nag yn y flwyddyn flaenorol. • Mae'r gwahaniaeth rhwng deilliannau darllen Cymraeg a Saesneg yn awgrymu nad yw arferion effeithiol yn y ddarpariaeth Gymraeg wedi'u trosglwyddo na'u hymgorffori'n ddigon cyson ar draws yr holl ddarpariaeth ddarllen. • Mae tystiolaeth o arsylwadau dysgu, craffu ar waith, trafodaethau proffesiynol a dadansoddi data yn dangos bod amrywiad yn ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth ddarllen ar draws yr ysgol. • Nid yw addysgu ffoneg a darllen wedi'i wreiddio'n ddigon cyson ar draws pob dosbarth, gan gyfyngu ar gynnydd rhai disgyblion yn eu medrau darllen cynnar a datblygedig.	wrth ddarllen testunau sy'n briodol i'w hoedran a'u cam datblygu. • Mae dilyniant clir mewn medrau darllen wedi'i gynllunio a'i weithredu ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad. • Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio gwybodaeth asesu yn effeithiol i gynllunio'r camau nesaf mewn dysgu ac i dargedu ymyriadau yn brydlon. • Mae disgyblion sy'n tangyflawni mewn darllen yn gwneud cynnydd cyflymach o ganlyniad i ymyriadau wedi'u targedu'n briodol. • Mae tystiolaeth o waith disgyblion, arsylwadau dysgu a thrafodaethau â disgyblion yn dangos gwelliant mewn defnydd o strategaethau darllen ac ymestyn geirfa. • Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddarllen ac yn sôn yn hyderus am eu darllen a'u hoff lyfrau. • Mae cyfran y disgyblion sy'n darllen yn rheolaidd er mwyn pleser yn cynyddu, fel y	• Arolygon llais disgyblion ar arferion darllen a darllen er mwyn pleser. • Tystiolaeth o gynlluniau tymor canolig a thymor byr sy'n dangos dilyniant clir mewn medrau darllen ar draws y cwricwlwm. • Cofnodion monitro cynnydd ac effeithiolrwydd ymyriadau darllen. • Dadansoddiad o bresenoldeb a chyfranogiad disgyblion mewn gweithgareddau hyrwyddo darllen. • Tystiolaeth o ymgysylltiad rhieni, gan gynnwys cofnodion darllen cartref, arolygon rhieni a chyfranogiad mewn mentrau darllen. • Adroddiadau monitro arweinwyr a chofnodion gweithgareddau sicrhau ansawdd. • Gwerthusiadau staff o effaith datblygiad proffesiynol ar addysgu darllen a ffoneg. • Cymariaethau rhwng deilliannau darllen Cymraeg a Saesneg i werthuso cysondeb ac effaith y ddarpariaeth ar draws yr ysgol.

• Nid yw'r dilyniant mewn medrau darllen ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad wedi'i gynllunio na'i weithredu'n ddigon systematig, gan arwain at anghysondebau ym mhrofiadau dysgu'r disgyblion. • Nid yw defnydd athrawon o wybodaeth asesu bob amser yn ddigon manwl nac amserol i lywio addysgu, olrhain cynnydd nac i dargedu ymyriadau yn effeithiol. • Er bod yr ysgol yn hyrwyddo darllen drwy ystod o weithgareddau, nid yw diwylliant darllen er mwyn pleser wedi'i ddatblygu'n ddigon cryf i sicrhau lefelau cyson uchel o ymgysylltu a chymhelliant ymhlith pob grŵp o ddisgyblion.	gwelir mewn arolygon llais y disgybl a gweithgareddau darllen yr ysgol	

Pwy sy'n arwain ar y prosiect hwn?	**Cyd-lynwyr Llythrennedd - Lowri Howells a Ceri James**	**Corff Llywodraethol**	Nest Griffiths

Cynllun Gweithredu	Gan bwy?	Dechrau	Diwedd	Amcan y gost	Ffynhonnell

Cynnal archwiliad ysgol gyfan o'r ddarpariaeth darllen a ffoneg er mwyn nodi cryfderau, anghysondebau a blaenoriaethau datblygu.	Pennaeth, Arweinydd Llythrennedd	Hydref 2026	Tachwedd 2026	£0	Cyllideb graidd
Datblygu a gweithredu dull ysgol gyfan cytûn ar gyfer addysgu ffoneg a darllen.	Arweinydd Llythrennedd, Pob Athro	Tachwedd 2026	Gorffennaf 2027	£1,500	Grant Datblygu Disgyblion / Cyllideb ysgol
Adolygu a mireinio'r dilyniant medrau darllen er mwyn sicrhau cynnydd clir ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad.	Tîm Arweinyddiaeth, Arweinwyr MDPh	Hydref 2026	Chwefror 2027	£0	Cyllideb graidd
Darparu dysgu proffesiynol i staff ar addysgu darllen, datblygu geirfa a defnyddio strategaethau darllen effeithiol.	Pennaeth, Arweinydd Llythrennedd	Hydref 2026	Mai 2027	£2,000	Cyllideb Hyfforddiant
Cynllunio gweithgareddau drilio iaith dyddiol sy'n datblygu geirfa, iaith lafar ac ymwybyddiaeth ffonolegol gan ddatblygu gerifa cynlluniedig ar draws y cwricwlwm.	Arweinydd Llythrennedd, Pob Athro	Hydref 2026	Gorffennaf 2027	£0	Cyllideb ysgol
Cryfhau defnydd athrawon o ddata ac asesiadau i olrhain cynnydd ac adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.	Arweinydd Asesu, Pob Athro	Hydref 2026	Gorffennaf 2027	£0	Cyllideb graidd

Adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau darllen er mwyn sicrhau bod disgyblion sy'n tangyflawni yn gwneud cynnydd cyflymach.	ALNCo, Arweinydd Llythrennedd	Tachwedd 2026	Gorffennaf 2027	£1,000	Grantiau perthnasol
Ehangu partneriaethau â rhieni i gefnogi darllen yn y cartref drwy weithdai, canllawiau ac adnoddau darllen.	Pennaeth, Arweinydd Ymgysylltu â Theuluoedd	Ionawr 2027	Gorffennaf 2027	£500	Cyllideb ysgol
Cynnal gweithgareddau monitro rheolaidd, gan gynnwys teithiau dysgu, arsylwadau, craffu ar waith a llais y disgybl, i werthuso effaith y ddarpariaeth.	Tîm Arweinyddiaeth	Hydref 2026	Gorffennaf 2027	£0	Cyllideb graidd
Gwerthuso effaith y cynllun yn erbyn data darllen, tystiolaeth monitro a llais disgyblion, a nodi'r camau nesaf ar gyfer gwelliant.	Llywodraethwyr, Pennaeth, Arweinwyr	Mehefin 2027	Gorffennaf 2027	£0	Cyllideb graidd
Datblygu strategaeth ysgol gyfan i hyrwyddo darllen er mwyn pleser, gan gynnwys gweithgareddau darllen rheolaidd a mynediad at destunau o ansawdd uchel.	Arweinydd Llythrennedd, Staff	Hydref 2026	Gorffennaf 2027	£2,500	Cyllideb adnoddau / Grant
Datblygu partneriaeth effeithiol â rhieni drwy weithdai, modelu ac adnoddau i gefnogi darllen a ffoneg gartref.	Arweinydd Llythrennedd, Staff	Hydref 2026	Gorffennaf 2027	£0	Cyllideb ysgol
Cynllunio cyfleoedd i ddatblygu medrau darllen ar draws y cwricwlwm gan gryfhau'r elfen o ddarllen ar y cyd.	Arweinydd Llythrennedd, Staff	Hydref 2026	Gorffennaf 2027	£0	Cyllideb ysgol

Dyddiad	Gweithgaredd Monitro	Gan bwy?	Arwyddion diriaethol o gynnydd against milestones and / or further work required *(nid cwblhau gweithgareddau neu dasgau yn unig)*

Autumn Term Impact Statement			
Spring Term Impact Statement			
Summer Term Impact Statement			

Blaenoriaeth 2 **Priority 2**	Cryfhau rhesymu mathemategol a datrys problemau er mwyn gwella cynnydd a deilliannau disgyblion ar draws yr ysgol.

Ble'r ydyn ni arni 'nawr? yn seiliedig ar ein hunanarfarnu	**Meini Prawf Targedau a Llwyddiant** Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan fydd:	**Ffynonellau Tystiolaeth Allweddol**
Mae data Profion Personol Cenedlaethol 2026 yn dangos nad yw safonau rhesymu mathemategol yn ddigon cyson ar draws yr ysgol. Mae gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni yn y bandiau uwch a chynnydd yn y rhai sy'n cyflawni yn y bandiau is yn awgrymu nad yw cynnydd mewn rhesymu mathemategol yn cael ei sicrhau'n ddigon effeithiol ar draws cohortau. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth fathemategol gadarn ac yn	• Mae safonau rhesymu mathemategol yn gwella ar draws yr ysgol, gyda mwy o ddisgyblion yn dangos y gallu i gymhwyso eu medrau mewn cyd-destunau newydd ac ystyrlon. • Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau rhesymu mathemategol o'u mannau cychwyn. • Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir ac	• Data tracio ysgol a chyfarfodydd cynnydd. • Craffu ar waith disgyblion. • Arsylwadau dysgu ac addysgu. • Teithiau dysgu. • Llais y disgybl. • Cynlluniau tymor byr a chanolig. • Cofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol. • Adroddiadau monitro gan arweinwyr. • Tystiolaeth o ddefnydd effeithiol o adborth ac asesu ar gyfer dysgu.

defnyddio modelau a chynrychioliadau gweledol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf yn trosglwyddo'r ddealltwriaeth hon yn gyson i sefyllfaoedd datrys problemau nac yn cymhwyso eu medrau mewn cyd-destunau newydd ac anghyfarwydd. Mae mwyafrif y disgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â mathemateg. Serch hynny, nid yw llawer yn defnyddio geirfa fathemategol yn ddigon manwl nac yn esbonio a chyfiawnhau eu rhesymu gyda digon o hyder ac ansawdd. Mae tystiolaeth o fonitro, craffu ar waith a llais y disgybl yn dangos bod arferion effeithiol yn bodoli o fewn yr ysgol. Fodd bynnag, mae amrywiad yn ansawdd y ddarpariaeth yn golygu nad yw disgyblion yn cael profiadau digon cyson i ddatblygu rhesymu mathemategol a datrys problemau i'r un safon uchel. Er bod yr ysgol wedi buddsoddi'n sylweddol mewn datblygu addysgeg mathemategol, gan gynnwys gweithredu egwyddorion Singapore Maths, nid yw'r egwyddorion hyn wedi'u gwreiddio'n ddigon cyson ar draws pob dosbarth i sicrhau effaith gynaliadwy ar safonau a chynnydd.	yn hyderus wrth egluro, cyfiawnhau a gwerthuso eu strategaethau a'u hatebion. • Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwydnwch, annibyniaeth a hyder wrth ddatrys problemau mathemategol cynyddol gymhleth. • Mae disgyblion yn trosglwyddo eu medrau rhesymu mathemategol yn effeithiol ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad lle bo'n briodol. • Mae lleiafrif cryf o ddisgyblion yn cyflawni ar y lefelau uwch mewn rhesymu mathemategol, gyda gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n tangyflawni. • Mae egwyddorion Singapore Maths wedi'u gwreiddio'n gyson ar draws yr ysgol ac yn cyfrannu at well dealltwriaeth gysyniadol a chynnydd disgyblion. • Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i ddatblygu rhesymu mathemategol, datrys problemau a defnydd o eirfa fathemategol. • Mae ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer mathemateg yn gyson effeithiol ar	• Adolygiadau llywodraethwyr.

Nid yw cyfleoedd i ddatblygu, cymhwyso ac ymestyn rhesymu mathemategol wedi'u cynllunio'n ddigon systematig ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn datblygu'r annibyniaeth, y gwydnwch na'r hyder sydd eu hangen i fynd i'r afael â heriau mathemategol cynyddol gymhleth. Mae gweithgareddau hunanwerthuso wedi nodi'n glir mai'r her allweddol yw sicrhau cysondeb yn ansawdd y ddarpariaeth. Y flaenoriaeth nesaf yw gwreiddio dull ysgol gyfan o ddatblygu rhesymu mathemategol, datrys problemau a geirfa fathemategol er mwyn cryfhau cynnydd, cynyddu'r gyfran o ddisgyblion sy'n cyflawni ar y lefelau uwch a lleihau amrywiad mewn deilliannau ar draws yr ysgol.	draws yr ysgol, gydag ychydig iawn o amrywiad rhwng dosbarthiadau. • Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio holi medrus ac adborth effeithiol i ddyfnhau dealltwriaeth a herio meddwl mathemategol disgyblion. • Mae gweithgareddau monitro yn dangos bod strategaethau cytûn ar gyfer datblygu rhesymu mathemategol yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol. • Mae llais y disgybl yn dangos bod mwyafrif y disgyblion yn teimlo'n hyderus fel mathemategwyr ac yn gallu trafod eu dysgu gan ddefnyddio geirfa fathemategol briodol. • Mae data mewnol ac allanol yn dangos gwelliant cynaliadwy mewn safonau a chynnydd mathemategol ar draws yr ysgol. • Mae amrywiad mewn deilliannau rhwng dosbarthiadau a grwpiau o ddysgwyr wedi lleihau, gan sicrhau mwy o gysondeb mewn safonau a chynnydd.	

Pwy sy'n arwain ar y prosiect hwn?	Cyd-lynwyr Rhifedd SR a EZ	Corff Llywodraethol	Tania Nicholson

Cynllun Gweithredu	Gan bwy?	Dechrau	Diwedd	Amcan y gost	Ffynhonnell
Cynnal archwiliad ysgol gyfan o safonau rhesymu mathemategol, ansawdd y ddarpariaeth a gweithrediad egwyddorion Singapore Maths.	Pennaeth, Arweinydd Mathemateg	Medi 2026	Hydref 2026	£0	Cyllideb ysgol
Adolygu a chytuno ar ddisgwyliadau ysgol gyfan ar gyfer datblygu rhesymu mathemategol, datrys problemau a geirfa fathemategol.	Arweinydd Mathemateg, Staff Addysgu	Medi 2026	Tachwedd 2026	£0	Cyllideb ysgol
Darparu dysgu proffesiynol i bob aelod o staff ar egwyddorion craidd Singapore Maths, gan gynnwys y dull Concrid-Lluniadol-Haniaethol (CPA) a defnydd effeithiol o holi.	Arweinydd Mathemateg, Partner Allanol	Hydref 2026	Mawrth 2027	£2,000	Cyllideb Hyfforddiant
Datblygu dilyniant ysgol gyfan ar gyfer rhesymu mathemategol a geirfa fathemategol ar draws pob cam cynnydd.	Arweinydd Mathemateg, Arweinwyr Cynnydd	Hydref 2026	Ionawr 2027	£0	Cyllideb ysgol
Sicrhau cyfleoedd bwriadus a chyson i ddisgyblion esbonio, cyfiawnhau a gwerthuso eu meddwl mathemategol ym mhob dosbarth.	Pob Athro	Tachwedd 2026	Gorffennaf 2027	£0	Cyllideb ysgol
Datblygu dull ysgol gyfan o addysgu a monitro datrys problemau mathemategol mewn cyd-destunau newydd ac anghyfarwydd.	Arweinydd Mathemateg	Tachwedd 2026	Gorffennaf 2027	£500	Cyllideb ysgol
Sicrhau defnydd cyson o fodelau, cynrychioliadau gweledol a manipulatives i ddyfnhau dealltwriaeth gysyniadol disgyblion.	Pob Athro	Hydref 2026	Gorffennaf 2027	£2,500	Cyllideb Adnoddau
Datblygu prosesau asesu a thracio er mwyn monitro cynnydd disgyblion mewn rhesymu mathemategol a nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.	Arweinydd Asesu, Arweinydd	Hydref 2026	Chwefror 2027	£0	Cyllideb ysgol

	Mathemateg				
Cynnal teithiau dysgu, arsylwadau gwersi a chraffu ar waith i werthuso cysondeb y ddarpariaeth a gweithrediad egwyddorion Singapore Maths.	UDA, Arweinydd Mathemateg	Tymhorol	Gorffennaf 2027	£0	Cyllideb ysgol
Defnyddio llais y disgybl i werthuso hyder disgyblion wrth ddefnyddio geirfa fathemategol, rhesymu a datrys problemau.	Arweinydd Mathemateg	Ionawr 2027	Mehefin 2027	£0	Cyllideb ysgol
Darparu cymorth ac ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig mewn rhesymu mathemategol.	Athrawon Dosbarth, CADY	Tachwedd 2026	Gorffennaf 2027	£1,000	PDG / Cyllideb ysgol
Dadansoddi effaith y ddarpariaeth drwy ddefnyddio data, tystiolaeth monitro a llais y disgybl i lywio'r camau nesaf ar gyfer gwelliant.					

Dyddiad	Gweithgaredd Monitro	Gan bwy?	Arwyddion diriaethol o gynnydd against milestones and / or further work required *(nid cwblhau gweithgareddau neu dasgau yn unig)*
Tymor yr Hydref	Teithiau dysgu, arsylwadau a chraffu ar waith	SR / EZ	Mwy o gysondeb yn y ddarpariaeth; geirfa fathemategol yn weladwy ac yn cael ei defnyddio'n gywir gan y disgyblion.
Tymor yr Hydref	Cyfarfodydd cynnydd a dadansoddi data	SR / Athrawon	Dysgwyr mewn perygl o dangyflawni wedi'u hadnabod ac ymyriadau priodol wedi'u rhoi ar waith.
Tymor y Gwanwyn	Craffu ar waith a llais y disgybl	SR / EZ	Disgyblion yn dangos gwell gallu i gyfiawnhau atebion a defnyddio strategaethau rhesymu yn annibynnol.

Tymor y Gwanwyn	Arsylwadau addysgu a dysgu	Tîm Arwain	Tystiolaeth o gwestiynu effeithiol a chyfleoedd rheolaidd ar gyfer datrys problemau a rhesymu.
Tymor yr Haf	Dadansoddiad o ddata tracio a phrofion	SR / EZ	Gwelliant mesuradwy mewn safonau a chynnydd rhesymu mathemategol ar draws cohortau.
Autumn Term Impact Statement			
Spring Term Impact Statement			
Summer Term Impact Statement			

Blaenoriaeth 3 **Priority 3**	Ymgorffori a chryfhau diwylliant ysgol gyfan sy'n seiliedig ar berthnasoedd, gwrando empathig a llais y disgybl

Ble'r ydyn ni arni 'nawr? yn seiliedig ar ein hunanarfarnu	**Meini Prawf Targedau a Llwyddiant** Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan fydd:	**Ffynonellau Tystiolaeth Allweddol**
Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu dull trawma-seiliedig ac adferol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rhan fwyaf o staff wedi derbyn hyfforddiant perthnasol ac mae arferion sy'n seiliedig ar berthnasoedd, gwrando empathig a rheoleiddio emosiynol wedi'u sefydlu ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael eu cefnogi, ac mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn gryf. Mae data ymddygiad, lles a monitro yn dangos gwelliant mewn lles, perthnasoedd ac ymgysylltiad dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw arferion perthynol	• Mae pob aelod o staff yn defnyddio dulliau perthynol ac empathig yn gyson ar draws pob agwedd ar fywyd yr ysgol. • Mae egwyddorion *Protect, Relate, Regulate and Reflect* wedi'u gwreiddio'n gadarn mewn polisïau, gweithdrefnau ac arferion dyddiol yr ysgol. • Mae gweithgareddau monitro yn dangos cysondeb gwell yn ansawdd y ddarpariaeth berthynol, gan gynnwys yn ystod amseroedd anstrwythuredig. • Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o barch, cydweithrediad ac	• Holiaduron llais y disgybl • Grwpiau ffocws disgyblion • Holiaduron rhieni • Holiaduron staff • Data ymddygiad • Data presenoldeb • Cofnodion adferol • Arsylwadau dysgu • Teithiau dysgu • Craffu ar amgylchedd dysgu • Cofnodion Cyngor Ysgol • Astudiaethau achos • Cofnodion grŵp lles • Adroddiadau llywodraethwyr

ac adferol eto'n gwbl gyson ym mhob cyd-destun ysgol, yn enwedig yn ystod amseroedd anstrwythuredig. Er bod llawer o ddisgyblion yn dangos parch tuag at gyfoedion ac oedolion, mae lleiafrif yn parhau i ddangos ymddygiadau amharchus neu ymatebion anghyfaddas mewn rhai sefyllfaoedd. Y cam nesaf yw gwreiddio ymhellach ddiwylliant ysgol gyfan sy'n seiliedig ar egwyddorion Protect, Relate, Regulate and Reflect, lle mae pob aelod o staff yn defnyddio dulliau perthynol ac empathig yn gyson, a lle mae pob disgybl yn teimlo ei fod yn cael ei wrando arno, yn perthyn ac yn cyfrannu'n weithredol at fywyd yr ysgol. Bydd llais y disgybl yn chwarae rhan fwy canolog wrth gynllunio, monitro a gwerthuso darpariaeth, ynghyd â datblygu dulliau mwy systematig o fesur effaith y ddarpariaeth berthynol ac adferol ar brofiadau a deilliannau disgyblion.	ymddygiad cadarnhaol tuag at gyfoedion ac oedolion. • Mae data ymddygiad yn dangos gostyngiad mewn digwyddiadau o ymddygiad amharchus ac anghydfod rhwng disgyblion. • Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adrodd eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwrando arnynt ac yn perthyn i gymuned yr ysgol. • Mae tystiolaeth o arolygon lles a llais y disgybl yn dangos gwelliant yn ymdeimlad disgyblion o berthyn a'u hymgysylltiad â bywyd yr ysgol. • Mae disgyblion yn cyfrannu'n rheolaidd at wneud penderfyniadau ac yn gallu nodi sut mae eu barn wedi dylanwadu ar ddatblygiadau'r ysgol. • Mae llais y disgybl wedi'i integreiddio'n effeithiol i brosesau cynllunio, monitro a gwerthuso'r ysgol. • Mae data lles, presenoldeb ac ymgysylltiad yn dangos gwelliant parhaus ym mhrofiadau a deilliannau disgyblion.	

Pwy sy'n arwain ar y prosiect hwn?	Angharad Williams / Elin Zych / Lowri Howells	Corff Llywodraethol	Nest Griffiths

Cynllun Gweithredu	Gan bwy?	Dechrau	Diwedd	Amcan y gost	Ffynhonnell
Dadansoddi canfyddiadau hunanwerthuso, data lles ac adborth rhanddeiliaid er mwyn nodi blaenoriaethau pellach ar gyfer datblygu diwylliant ysgol gyfan	AG/ EZ	Medi 2026	Hydref 2026	£0	
Trafod egwyddorion allweddol o When the Adults Change, Everything Changes mewn cyfarfodydd staff a DPP er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o rôl oedolion wrth greu diwylliant ysgol cadarnhaol					
Cynnal holiaduron lles gyda disgyblion, staff a rhieni/gofalwyr i gasglu safbwyntiau ar berthyn, parch, diogelwch a lles	LH/ EZ	Medi 2026	Gorffennaf 2027	£0	
Datblygu a chyhoeddi gweledigaeth ysgol gyfan ar gyfer perthyn, parch, llais y disgybl a lles	AG/ EZ / Staff	Medi 2026	Tachwedd 2026	£0	
Adolygu, mireinio ac ail-lansio'r Polisi Ymddygiad a Pherthyn mewn ymgynghoriad â staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Datblygu siarter ysgol gyfan ar gyfer perthyn, parch a disgwyliadau oedolion	AG / EZ / Cyngor Ysgol / Llywodraethwyr	Medi 2026	Rhagfyr 2026	£0	
Adolygu sut mae oedolion yn cyfathrebu gyda disgyblion mewn sefyllfaoedd dyddiol gan gynnwys amseroedd chwarae, cinio a chyfnodau pontio					

Datblygu iaith gyffredin ysgol gyfan ar gyfer ymatebion adferol a sgyrsiau perthynol					
Datblygu rôl y Cyngor Ysgol fel partner gweithredol wrth lywio polisïau, trafod canlyniadau holiaduron a chyflwyno argymhellion i staff a llywodraethwyr	EZ / Cyngor Ysgol	Medi 2026	Gorffennaf 2027	£0	
Sefydlu trefniadau rheolaidd i gasglu llais y disgybl drwy grwpiau ffocws, trafodaethau dosbarth, arolygon a gweithgareddau gwerthuso	Pob Athro	Medi 2026	Gorffennaf 2027	£0	
Hyfforddi staff ar wrando empathig, sgyrsiau adferol, datrys gwrthdaro a hyrwyddo llais y disgybl	AG / EZ	Hydref 2026	Ionawr 2027	£500	
Adolygu a mireinio systemau cydnabod a gwobrwyo er mwyn sicrhau bod ymdrech, caredigrwydd, parch a gwelliant personol yn cael eu dathlu'n gyson	AW/AG / EZ / Staff	Hydref 2026	Ionawr 2027	£300	
Datblygu disgwyliadau cyson ar gyfer ymddygiad parchus ym mhob rhan o fywyd yr ysgol gan gynnwys amseroedd chwarae, cinio ac ymweliadau addysgol	Pob Athro	Medi 2026	Gorffennaf 2027	£0	
Darparu cyfleoedd wythnosol i ddisgyblion fyfyrio ar eu lles, perthnasoedd, emosiynau a'u hymdeimlad o berthyn	Pob Athro	Medi 2026	Gorffennaf 2027	£0	
Ysgol gyfan a chynllunio camau nesaf	HD/ Cyngor Ysgol	Ionawr 2027	Gorffennaf 2027	£0	
Monitro cysondeb y diwylliant ysgol gyfan drwy deithiau dysgu, arsylwadau, craffu ar waith a sgyrsiau gyda rhanddeiliaid	AW/EZ / Llywodraethwyr	Hydref 2026	Gorffennaf 2027	£0	
Datblygu astudiaethau achos sy'n dangos effaith llais y disgybl, dulliau adferol a strategaethau perthyn ar les ac ymddygiad disgyblion	AW/AG / EZ	Ionawr 2027	Gorffennaf 2027	£0	

Dyddiad	**Gweithgaredd Monitro**	**Gan bwy?**	**Arwyddion diriaethol o gynnydd against milestones and / or further work required** ***(nid cwblhau gweithgareddau neu dasgau yn unig)***

Autumn Term Impact Statement			

Spring Term Impact Statement			
Summer Term Impact Statement			

Blaenoriaeth 4 **Priority 4**	Datblygu annibyniaeth a hunanreoleiddio dysgwyr drwy wreiddio arferion Asesu ar gyfer Dysgu yn gyson ar draws yr ysgol.

Ble'r ydyn ni arni 'nawr? yn seiliedig ar ein hunanarfarnu	**Meini Prawf Targedau a Llwyddiant** Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan fydd:	**Ffynonellau Tystiolaeth Allweddol**

Mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio ystod briodol o strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu yn rheolaidd i gefnogi dysgu a chynnydd disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn gallu trafod eu dysgu'n hyderus, gan nodi eu cryfderau a'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae gweithgareddau monitro yn dangos bod defnydd staff o feini prawf llwyddiant, adborth llafar a chyfleoedd hunanasesu wedi cryfhau ar draws yr ysgol. Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu ac yn dangos dealltwriaeth gynyddol o'u cynnydd. Nid yw defnydd strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu bob amser yn arwain at lefelau uchel o annibyniaeth ymhlith disgyblion. Mewn rhai dosbarthiadau, mae gormod o ddisgyblion yn dibynnu ar gymorth oedolion yn hytrach na defnyddio strategaethau i oresgyn heriau yn annibynnol. Mae rhai disgyblion yn aros am gymeradwyaeth neu gyfarwyddyd pellach gan athrawon cyn symud ymlaen â'u dysgu.	• Mae arferion Asesu ar gyfer Dysgu wedi'u gwreiddio'n gyson ar draws yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar annibyniaeth dysgwyr. Mae pob athro yn defnyddio cwestiynu medrus, meini prawf llwyddiant ac adborth effeithiol i hyrwyddo meddwl annibynnol a hunanreoleiddio. • Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu egluro beth maent yn ei ddysgu, pa mor dda y maent yn gwneud a beth yw eu camau nesaf. • Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau priodol i oresgyn heriau cyn ceisio cymorth oedolyn. • Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwydnwch a dyfalbarhad wrth wynebu tasgau heriol. • Mae disgyblion yn cynllunio, monitro a gwerthuso agweddau ar eu dysgu eu hunain yn gynyddol effeithiol. • Mae disgwyliadau ar gyfer annibyniaeth dysgwyr yn gyson uchel ym mhob dosbarth ac ar draws pob maes dysgu. • Mae ansawdd y ddarpariaeth annibynnol yn gyson dda neu well ar draws yr ysgol.	• Arsylwadau gwersi • Teithiau dysgu • Craffu ar waith • Craffu ar lyfrau gyda disgyblion • Llais y disgybl • Holiaduron disgyblion • Holiaduron staff • Cynllunio athrawon • Tystiolaeth hunanasesu ac asesu cyfoedion • Adborth llafar ac ysgrifenedig • Nodiadau monitro ar gwestiynu • Adroddiadau llywodraethwyr

Mae ansawdd y ddarpariaeth annibynnol, gan gynnwys gweithgareddau mewn gorsafoedd a gweithdai, yn amrywio rhwng dosbarthiadau. Nid yw disgwyliadau ar gyfer annibyniaeth dysgwyr wedi'u deall na'u gweithredu'n ddigon cyson ar draws yr ysgol. Mae ansawdd y cwestiynu yn amrywio. Yn yr arfer orau, mae cwestiynau medrus yn annog disgyblion i ddyfnhau eu meddwl, rhesymu, datrys problemau a gwneud penderfyniadau'n annibynnol. Mewn rhai achosion, mae oedolion yn ymyrryd yn rhy gynnar neu'n darparu gormod o gymorth, gan gyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i ddatblygu gwydnwch, dyfalbarhad a medrau hunanreoleiddio. Mae gweithgareddau monitro yn dangos amrywiad yng nghyflymder a llif dysgu disgyblion rhwng dosbarthiadau. Mewn rhai gwersi, mae disgyblion yn colli momentwm wrth aros am gymorth neu gymeradwyaeth oedolyn cyn symud ymlaen â'u gwaith. O ganlyniad, nid yw pob disgybl yn cymryd cyfrifoldeb digonol am ei ddysgu ei hun nac yn datblygu'n llawn fel dysgwr annibynnol.	• Mae gweithgareddau monitro yn dangos bod disgyblion yn symud ymlaen â'u dysgu yn fwy hyderus heb orddibynnu ar gymorth oedolion. • Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau, cyfoedion a strategaethau dysgu i ddatrys problemau'n annibynnol. • Mae arsylwadau gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar waith yn dangos lefelau cynyddol o annibyniaeth, ymgysylltiad a hunanreoleiddio ymhlith disgyblion. • Mae data monitro ac adborth disgyblion yn dangos gwelliant yn hyder, annibyniaeth a pherchnogaeth disgyblion o'u dysgu. • Mae cyflymder a llif dysgu yn gryf ar draws yr ysgol, gyda llai o ddisgyblion yn aros am gymeradwyaeth neu gymorth oedolion cyn symud ymlaen. • Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu cynnydd ac yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol, gwydn a hunanreoleiddio	

Mae angen sicrhau bod egwyddorion Asesu ar gyfer Dysgu yn cael eu defnyddio'n fwy bwriadol a chyson i ddatblygu dysgwyr sy'n gallu cynllunio, monitro a gwerthuso eu dysgu eu hunain a chymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu cynnydd.		

Pwy sy'n arwain ar y prosiect hwn?	**Cyd-lynwyr Llythrennedd - Lowri Howells a Angharad Williams**	**Corff Llywodraethol**	Nest Griffiths

Cynllun Gweithredu	**Gan bwy?**	**Dechrau**	**Diwedd**	**Amcan y gost**	**Ffynhonnell**
Cynnal archwiliad ysgol gyfan o ansawdd ac effaith arferion Asesu ar gyfer Dysgu ar annibyniaeth dysgwyr.	Pennaeth, Arweinydd Asesu	Medi 2026	Hydref 2026	£0	Cyllideb ysgol
Adolygu a chytuno ar ddisgwyliadau ysgol gyfan ar gyfer Asesu ar gyfer Dysgu, annibyniaeth a hunanreoleiddio dysgwyr.	UDA, Arweinydd Asesu	Medi 2026	Tachwedd 2026	£0	Cyllideb ysgol
Darparu dysgu proffesiynol i staff ar ddefnyddio cwestiynu medrus, adborth effeithiol, hunanasesu ac asesu cyfoedion i ddatblygu annibyniaeth dysgwyr.	Arweinydd Asesu	Hydref 2026	Mawrth 2027	£1,500	Cyllideb Hyfforddiant
Datblygu dilyniant ysgol gyfan ar gyfer annibyniaeth, gwydnwch a hunanreoleiddio dysgwyr.	Arweinydd Asesu, UDA	Hydref 2026	Ionawr 2027	£0	Cyllideb ysgol
Cytuno ar a gweithredu strategaethau cyson i leihau gor-ddibyniaeth ar gymorth oedolion.	Pob Athro	Tachwedd 2026	Gorffennaf 2027	£0	Cyllideb ysgol

Sicrhau defnydd cyson o feini prawf llwyddiant, adborth llafar a strategaethau hunanasesu ym mhob dosbarth.	Pob Athro	Hydref 2026	Gorffennaf 2027	£0	Cyllideb ysgol
Datblygu ansawdd y cwestiynu fel ei fod yn annog rhesymu, datrys problemau a gwneud penderfyniadau'n annibynnol.	Pob Athro	Tachwedd 2026	Gorffennaf 2027	£0	Cyllideb ysgol
Adolygu ansawdd gweithdai, gorsafoedd a gweithgareddau annibynnol i sicrhau disgwyliadau uchel a chyson.	UDA, Arweinwyr Cyfnod	Tachwedd 2026	Chwefror 2027	£0	Cyllideb ysgol
Datblygu prosesau monitro ac asesu i olrhain datblygiad annibyniaeth a hunanreoleiddio dysgwyr.	Arweinydd Asesu	Hydref 2026	Chwefror 2027	£0	Cyllideb ysgol
Cynnal teithiau dysgu, arsylwadau gwersi a chraffu ar waith i werthuso effaith arferion Asesu ar gyfer Dysgu ar annibyniaeth disgyblion.	UDA, Arweinydd Asesu	Tymhorol	Gorffennaf 2027	£0	Cyllideb ysgol
Defnyddio llais y disgybl i werthuso pa mor dda y mae disgyblion yn deall eu dysgu, yn defnyddio adborth ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu cynnydd.	Arweinydd Asesu	Ionawr 2027	Mehefin 2027	£0	Cyllideb ysgol
Darparu cymorth wedi'i dargedu i staff lle nad yw arferion Asesu ar gyfer Dysgu ac annibyniaeth dysgwyr yn ddigon effeithiol neu gyson.	Pennaeth, UDA	Ionawr 2027	Gorffennaf 2027	£0	Cyllideb ysgol
Dadansoddi effaith y ddarpariaeth drwy ddefnyddio data, tystiolaeth monitro a llais y disgybl i werthuso cynnydd mewn annibyniaeth, gwydnwch a hunanreoleiddio, a llywio'r camau nesaf ar gyfer gwelliant.	Pennaeth, Arweinydd Asesu	Mehefin 2027	Gorffennaf 2027	£0	Cyllideb ysgol

Dyddiad	Gweithgaredd Monitro	Gan bwy?	Arwyddion diriaethol o gynnydd against milestones and / or further work required *(nid cwblhau gweithgareddau neu dasgau yn unig)*
Autumn Term Impact Statement			

Spring Term Impact Statement			
Summer Term Impact Statement			

Meysydd ffocws arall – Other focus areas 2026-27

Arweinyddiaeth - Leadership	**Iaith, Llythrennedd a Cyfathrebu** **Language, Literacy & Communication**	**Mathemateg a Rhifedd** **Mathematics and Numeracy**	**Gwyddoniaeth a Thechnoleg** **Science & Technology**
Arweinwyr Meysydd Dysgu a Phrofiad i adolygu a gwerthuso eu meysydd yn rheolaidd a chyflwyno adroddiadau i lywodraethwyr. Alinio	CDY Sicrhau cysondeb mewn addysgu darllen a ffoneg ar draws yr ysgol a	CDY **Cryfhau rhesymu mathemategol, geirfa fathemategol a datrys problemau er mwyn lleihau**	Datblygu ymholi gwyddonol, ymchwilio ac arbrofi fel rhan naturiol o'r cwricwlwm er mwyn cryfhau medrau meddwl beirniadol a datrys problemau.

ymweliadau llywodraethwyr â chalendr monitro'r ysgol.	datblygu medrau darllen uwch er mwyn gwella deilliannau darllen.	**amrywiad mewn deilliannau a chynyddu nifer y disgyblion sy'n cyflawni yn y bandiau uchaf.**	
Cymhwysedd Digidol **Digital competency**	**Iechyd a Lles** **Health and Wellbeing**	**Dyniaethau - Humanites**	**Celfyddydau Mynegiannol** **Creative Arts**
Sicrhau cymhwyso medrau digidol yn gyson ac yn bwrpasol ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad.	Ail-fapio Addysg Gorfforol i sicrhau dilyniant clir mewn medrau corfforol, iechyd a lles ar draws yr ysgol.	Cryfhau Cymreictod, hanes lleol a'r cysyniad "Ein Milltir Sgwâr" ar draws y cwricwlwm.	Mapio medrau a phrofiadau creadigol ar draws themâu er mwyn sicrhau dilyniant a chynnydd.
Asesu ac adborth **Assessment & Feedback**	**Diogelu** **Safeguarding**	**ADY - ALN**	**Llais y plentyn - Pupil voice**
Monitro cysondeb Asesu ar gyfer Dysgu a sicrhau bod adborth yn arwain at welliant mesuradwy mewn dysgu.	Cwblhau archwiliadau diogelu, adolygu systemau GDPR a sicrhau bod polisïau ac arferion yn gyfredol.	Ffocws ar ymyriadau a chynnydd grwpiau targed. Monitro effaith darpariaeth ADY.	Cryfhau rôl y Cyngor Ysgol a grwpiau disgyblion wrth lywio penderfyniadau a blaenoriaethau'r ysgol.
Dysgu - Teaching	**Ethos**	**Cyfathrebu / Rhieni** **Communication/Parents**	**Cwricwlwm - Curriculum**
Sicrhau bod canfyddiadau monitro yn arwain at welliannau pendant mewn addysgu, dysgu a darpariaeth.	Cymreictod	Cryfhau partneriaethau â rhieni drwy weithdai, cyfathrebu rheolaidd a hyrwyddo gwefan Newydd yr ysgol.	Parhau i fireinio'r cwricwlwm i sicrhau dilyniant, her briodol a chymhwyso medrau ar draws pob MDaPh
Presenoldeb	Cyllid		
Parhau i gryfhau strategaethau presenoldeb drwy ddefnydd effeithiol o ddata, gweithio gyda theuluoedd ac ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer grwpiau sydd mewn perygl o absenoldeb parhaus.	Chwilio am grantiau a ffynonellau ariannu ychwanegol i gyfoethogi profiadau dysgwyr a gwella darpariaeth yr ysgol.		

BLAENORIAETHAU A THARGEDAU LEFEL UCHEL : Blwyddyn 2+3

Blwyddyn 2 : 2026 – 2027		
Cwrciwlwm, Dysgu ac Addysgu	Lles, tegwch a chynhwysiant	Gweledigaeth ac Arweinyddiaeth
Darllen Rol yr oedolyn cwesitynu Sgiliau cyfannol – annibyniaeth	Hyrwyddo Lles a Chynhwysiant Drwy Gryfhau Llais y Dysgwr. Cryfhau Arferion Adferol	Parhau i ddatblygu pob aelod o staff i fod yn arweinwyr cryf er mwyn cefnogi gweithgarwch ac arfarniadau yr ysgol.
Blwyddyn 3 : 2026 – 2027		
Cwrciwlwm, Dysgu ac Addysgu	Lles, tegwch a chynhwysiant	Gweledigaeth ac Arweinyddiaeth

* ADOLYGU'R CYNNYDD YN ERBYN ARGYMHELLION ESTYN

Dyddiad yr arolwg: Medi 2019	Categori:		
Argymhellion			
	Cynnydd yn erbyn argymhellion		
A1 Gwella medrau darllen disgyblion cyfnod allweddol 2	**Bu'r argymhelliad hwn yn flaenoriaeth yn y CDY am ddwy flynedd yn olynol. Gwelwyd gwelliant mewn safonau darllen dros y cyfnod hwnnw, yn enwedig mewn darllen Cymraeg a chynnydd llawer o ddisgyblion sy'n derbyn cymorth wedi'i dargedu. Fodd bynnag, mae dadansoddiad diweddar o'r Profion Cenedlaethol yn dangos nad yw'r cynnydd hwn wedi'i gynnal yn gyson, yn enwedig mewn Darllen Saesneg. O ganlyniad, mae datblygu darllen yn parhau'n flaenoriaeth allweddol o fewn CDY 2026-27.**		
A2 Sicrhau bod cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm	**Mae'r ysgol wedi datblygu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd drwy weithgareddau trawsgwricwlaidd, gwaith thematig a defnydd o systemau olrhain megis Matrix. Yn ogystal, mae gweithredu Singapore Maths wedi**		

	cryfhau gallu llawer o ddisgyblion i gymhwyso eu medrau mathemategol mewn ystod o gyd-destunau. Mae tystiolaeth o waith disgyblion a data mewnol yn dangos cynnydd cadarnhaol mewn rhifedd a rhesymu mathemategol.
A3 Cryfhau rôl y llywodraethwyr wrth fonitro ansawdd y ddarpariaeth a safonau i'w galluogi i herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol	**Mae rôl y llywodraethwyr wedi cryfhau'n sylweddol ers yr arolwg. Mae llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu, yn cyfrannu at weithgareddau hunanwerthuso ac yn adolygu polisïau ac adroddiadau cynnydd. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth well o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu, gan eu galluogi i ddarparu cymorth a her fwy effeithiol.**

ADOLYGU POLISÏAU

* Cyfrifoldeb y Penaethiaid a'u CLl yw sicrhau bod y rhestr hon yn cael ei hadolygu yng ngoleuni unrhyw newidiadau gan LlC

Dolen at ein polisiau:

[Awdit Dogfennau a Pholisïau Ionawr 2024.docx]

DATBLYGIAD PROFFESIONOL YCHWANEGOL 2023-25

* log o unrhyw DPP ychwanegol na nodir o fewn y blaenoriaethau uchod

Dolen at ein ardal Datblygiad Proffesiynol

Datblygiad Proffesiynol

RHESTR WIRIO CGY : gofynion statudol

CDY - Rhestr	
Datganiad byr yn nodi i ba raddau y cyflawnwyd y targedau gwella ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol flaenorol a lle na chyflawnwyd yn llawn gan gynnwys rhesymau.	✓
Ffocws ar godi safonau mewn sgiliau	✓
Ffocws ar leihau effaith tlodi/amddifadedd ar gyrhaeddiad o fewn blaenoriaethau.	✓
Blaenoriaethau gwella'r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol a meini prawf llwyddiant mesuradwy.	✓
Prosesau hunan arfarnu a chalendr monitro sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau datblygu'r ysgol.	✓
Cynllun 3 blynedd ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd i ddod, gan ystyried blaenoriaethau cenedlaethol.	✓
Manylion am sut y bydd datblygiad a dysgu proffesiynol staff ac arweinwyr yn bodloni blaenoriaethau datblygu'r ysgol.	✓
Manylion am sut y bydd yr ysgol yn gweithredu targedau gwella ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol drwy weithio gyda: disgyblion a'u teuluoedd; a chymuned ehangach yr ysgol.	✓
Manylion am sut y bydd yr ysgol yn gwneud y defnydd gorau o'r staff presennol ac adnoddau'r ysgol (gan gynnwys ei hadnoddau ariannol) i gwrdd â thargedau gwella'r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol a'r ddwy flynedd ysgol nesaf.	✓
CDY wedi'i ddatblygu a'i fabwysiadu gan y corff llywodraethu.	✓
Copi o'r CDY wedi'i ddosbarthu i'r holl staff a llywodraethwyr.	✓
Copi cryno o'r CDY wedi'i gyflwyno i rieni a'i gyhoeddi ar wefan yr ysgol.	✓
CDY yn cael ei fonitro/adolygu ym mhob cyfarfod o'r corff llywodraethu llawn.	✓
Atebolrwydd wedi'i gofnodi'n glir (aelod o staff/llywodraethwr penodedig).	✓
CSGA	✓